## Rheoli cydweithredol ar asedau lleol

Briff polisi ar gyfer Pencampwyr Bioamrywiaeth cynghorau cymuned a thref


**Crynodeb**

- Mae briff polisi hwn yn esbonio sut gall cynghorau cymuned a thref weithredu strategaeth ‘Llwybrau Gwyllt’ er mwyn cyflawni’u cyfrifoldebau amrywiol am ddatblygu cymunedol, iechyd a lles, a bioamrywiaeth.

- Mae arweiniad statudol yn hybu cynghorau cymuned a thref i gyd-weithio a sefydliadau eraill ar nifer o faterion eang, o reoli asedau lleol i weithredu cynlluniau bioamrywiaeth.

- Adnabyddodd ymchwil diweddar yng Nghymru[1] benblethau eang ar gyfer partneriaethau cydweithredol, gyda’r risg i gynghorau colli’r ffocws ar flaenoriaethau lleol.

- Creodd y prosiect ymchwil strategaeth benodol ‘Llwybrau Gwyllt’ sydd yn gallu helpu Pencampwyr Bioamrywiaeth i weithio gyda phartneriaid lleol i reoli asedau cymunedol heb golli’r ffocws ar flaenoriaethau cynghorau cymuned a thref.

- Mae’r briff yn adeiladu ar drafodaeth grŵp ffocws gyda 23 Pencampwr Bioamrywiaeth wedi’i threfnu gan brosiect Pethau Bychain Un Llais Cymru ym mis Tachwedd 2023.



Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

**Cydweithio ac asedau cymunedol**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru[2] yn hybu cynghorau cymuned a thref i'w ymestyn eu gweithgareddau i ymateb i anghenion lleol. Un ffordd all cynghorau wneud hyn yw trwy berchnogaeth a rheolaeth asedau a gwasanaethau cymunedol.

Mae gan Becyn Cymorth Asedau a Gwasanaethau Un Llais Cymru nifer o enghreifftiau am gynghorau'n cymryd dull cydweithredol i reoli'r asedau hyn. Mae cyd-weithio er lles pawb yn egwyddor allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[3].

Trefnodd Un Llais Cymru drafodaeth grŵp ffocws Pencampwyr Bioamrywiaeth cynghorau cymuned a thref fis Tachwedd 2023, fel rhan o'r prosiect Pethau Bychain. Adnabyddodd cynrychiolwyr nifer o sefydliadau amgylcheddol fel partneriaid cydweithredol, megis grwpiau lleol, llywodraeth leol a sefydliadau cenedlaethol o'r drydedd sector a'r sector cyhoeddus.

**Heriau cydweithio cynghorau cymuned a thref**

*Y cwestiwn ar gyfer cynghorau yw, sut allent gadw ffocws ar flaenoriaethau lleol tra hefyd yn cyfrannu at amcanion partneriaid?*

Mewn ymchwil diweddar[1], astudiais cydweithio mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yng Nghymru. Roedden ni'n darganfod bod y partneriaethau statudol hyn yn cael trafferth cynnwys blaenoriaethau pob partner a hefyd i gadw ffocws ar gymunedau lleol. Mae pedwar prif benbleth yn cyfrannu at y trafferthion.

Mae gan bartneriaid arbenigaeth o feysydd gwahanol. Ond mae diffyg amser am ddeialog yn rhwystro cyd-ddealltwriaeth am gyfraniadau posib at ei gilydd.

Mae angen dull strategol i gynllunio hir dymor, ond mae blaenoriaethu rhwng amcanion sefydliadau gwahanol yn rhoi mwy o ddylanwad i rai partneriaid na'i gilydd.

Mae rhaid i bob partner fod yn atebol i'w sefydliad ei hun, tra hefyd yn cyfrannu at amcanion partneriaid eraill ac at anghenion amrywiol eu cymunedau.

Mae gan bartneriaethau mynediad at amrediad o adnoddau, yn cynnwys grantiau, ond mae ariannu allanol yn gallu symud y ffocws o anghenion lleol i amcanion yr ariannwr.

**Astudiaethau achos**

Mae Pencampwyr Bioamrywiaeth cynghorau cymuned a thref yn adrodd profiadau cymysg am weithio mewn partneriaeth i reoli asedau gwyrdd lleol. Mae'r profiadau'n adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd mae cynghorau'n ceisio goresgyn y penblethau wedi' w adnabod yn yr ymchwil.

Trwy *gofleidio ag anghenion* grwpiau amrywiol o'r gymuned, mae **cyngor tref Welshpool** wedi ysgogi pobl i weithio efo'i gilydd i greu gardd gymunedol yn ymyl y gamlas leol. Fel cyfryngwyr, mae'r cyngor wedi dod at ei gilydd grŵp celf leol, y cyngor sir, plant ysgol a thrigolion. Erbyn hyn mae gan yr ardal murlun, ardal bywyd gwyllt, llwybrau newydd a meinciau mynediad anabl. Mae'r cyngor sir a gwirfoddolwyr lleol 'ground force' yn cydweithio i gynnal a chadw'r ardal.

Trwy *weithio ar brosiectau ar y cyd*, mae **cyngor cymuned Dyserth** yn deall yn well beth sy'n bwysig i wahanol bobl er mwyn creu gweledigaeth ar y cyd am ardd goffa. Mae hwn wedi ysgogi pobl i gydgyfrannu adnoddau. Mae aelodau o'r cyngor, y WI a grwp amgylcheddol, gydag aelodau'r cyhoedd wedi plannu coed wedi'i rhoi gan yr Ymddiriedolaeth Coedwigaeth wrth ddefnyddio offer wedi'i benthyg gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Ar y cyd maent yn creu gwrych coffa bywyd gwyllt.

Mae rôl **cyngor cymuned Goetr Fawr** fel *cyfryngwr rhwng gwahanol ddiddordebau*, wedi cael ei hamlygu wrth geisio gwella ardal wyrdd leol. Tra bod y cyngor sir yn cael ei gyfyngu gan gyllidebau, mae'r cyngor cymuned yn ymateb i anghenion pobl leol. Mae rhaid i'r cyngor cymuned cydymdrafod pryniant offer chwarae gan y cyngor sir, ond ar yr un amser cadw sylw ar anghenion amrywiol pobl leol ar gyfer ardal wyrdd agored neu fel lle i deuluoedd ifanc.

**Mae cyngor cymuned Llanedi** yn gyfarwydd iawn gyda *goresgyn gwahaniaethau* i greu ased cymunedol sydd yn gweithio i bawb. Wrth adnabod colled cyfleuster ond y potensial amgylcheddol o faes criced wedi'i llifo, mae'r cyngor wedi cynnwys plant ysgol a gwirfoddolwyr cymunedol i greu gwarchodfa a llwybr natur. Hefyd, trwy adnabod y budd i bobl a natur am dir diwydiannol adferedig, mae'r cyngor wedi helpu ei datblygu gyda phlanhigion brodorol ac anfrodorol i wella bioamrywiaeth a gweithgaredd corfforol.

Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

**Strategaeth Llwybrau Gwyllt i hwyluso gweithredu mewn partneriaeth**

Creodd y prosiect ymchwil strategaeth i helpu partneriaid a blaenoriaethau gwahanol i gydweithio i reoli asedau gwyrdd lleol.

Gall Pencampwyr Bioamrywiaeth ddefnyddio strategaeth 'Llwybrau Gwyllt' i helpu cynghorau cymuned a thref i weithio gydag ystod eang o bartneriaid gyda diddordebau mewn datblygu cymunedol a iechyd cyhoeddus yn ogystal a'r argyfwng natur a hinsawdd.

> 'Llwybr gwyllt: er enghraifft, ymyl lon a gwrych wedi' w cysylltu gyda llwybr a ffordd beicio a choedwig fach, mynwent, maes y pentref, maes chwarae, tir comin, parc gwledig ayyb'
>
> *Gwirfoddolwr Ymddiriedolaeth Natur*

*Y weledigaeth*



Nod Llwybrau Gwyllt yw creu rhwydwaith o lwybrau sy'n cysylltu cynefinoedd natur tra hefyd yn creu gweithgareddau carreg drws i wella iechyd ac adeiladu asedau cymunedol lleol.

*Cyflawni anghenion statudol*



Mae pob lwybr gwyllt yn cyfrannu nid yn unig at bioamrywiaeth (gofynion adran 6) ac at lles cyhoeddus (dyletswyddau llywodraeth lleol), ond hefyd at ddatblygu cymunedol ar sail asedau (wedi'i adnabod fel blaenoriaeth i gynghorau lleol).

> ' Rydym yn gwybod bod rhain yw'r pethau sy'n gallu cyfoethogi bywydau pobl a chynnal iechyd a lles gwell, ac felly yn cyfrannu at ardal lleol mwy iach a hapus.'
>
> *Uwch Ymarferydd iechyd cyhoeddus*

Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk


*Gweithredu strategaeth Llwybrau Gwyllt*



Mae partneriaid o'r cyngor, sefydliadau amgylcheddol, iechyd cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol yn adnabod ar y cyd nifer o asedau gwyrdd lleol. Rhain sydd â'r gallu i'w gwella i gysylltu cynefinoedd natur, creu gweithgareddau ar garreg drws ac adeiladu asedau cymunedol.



Mae'r partneriaid yn gweithio gyda chynllun 'rhagnodi cymdeithasol' lleol i ymgynghori â grwpiau amrywiol yn y gymuned. Ar y cyd â'r grwpiau yma, maent yn adnabod y rhwydweithiau penodol o lwybrau sydd yn cynnig y budd mwyaf i fywydau bob dydd trigolion lleol.




Mae sefydliadau partner yn adnabod y rhaglenni gwaith ar y gweill yn y gymuned benodol. Trwy gydgyfrannu adnoddau'r rhaglenni, maent yn dylunio prosiect ar y cyd sy'n gallu dechrau creu'r rhwydwaith o lwybrau.



Mae prosiect ar y cyd yn cysylltu eto â'r trigolion lleol a grwpiau gwirfoddol trwy'r cynllun rhagnodi cymdeithasol, er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl leol i greu, defnyddio, arsylwi a chynnal y rhwydweithiau o lwybrau.

Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk


**Camau nesaf**

Mae trafodaethau yn ystod ac ers yr ymchwil wedi'i adnabod dau bartner allweddol posib ar gyfer Pencampwyr Bioamrywiaeth i weithredu strategaeth Llwybrau Gwyllt.



Mae [Partneriaethau Natur Lleol] yn hwyluso rhwydwaith o bartneriaid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, gyda ffocws ar fioamrywiaeth.
Mae [Rhagnodi Cymdeithasol] yn cynyddu'n gyflym ar draws Cymru fel dull i wella lles cymunedau. Yn aml mae'r cynllun yn cael ei chydlynu trwy [gynghorau gwirfoddol sirol].

Mae prosiectau Llwybrau Gwyllt yn cyfrannu at strategaethau amrywiol. Nododd yr ymchwil rhaglenni gwaith sy'n cynnig ei hunan at Bencampwyr a phartneriaid ar gyfer prosiect lleol.




Mae rhaglenni 'Tirweddau Byw' gan Ymddiriedolwyr Natur yn cyfrannu at gysylltedd ecolegol.
Mae cynlluniau 'rhagnodi cymdeithasol' gan wasanaethau Gofal Sylfaenol ac Iechyd Cyhoeddus, yn cyfrannu at weithgareddau carreg drws.
Mae cynlluniau 'Teithio Llesol' Cynghorau Sir yn cyfrannu at ddatblygu asedau cymunedol.

Gall ffurfio 'cymuned ymarfer' helpu cynrychiolwyr cynghorau cymuned a thref i'w cyd-gefnogi wrth ddechrau mabwysiadu strategaeth llwybrau Gwyllt. Mae tri phrif egwyddor yn hwyluso'r math gymuned i ddysgu ar y cyd.



**Deialog**: Dod i ddeall blaenoriaeth gyfredol bob cyngor a'r ffordd maent yn ei gyflawni. Wrth gysylltu â phartner newydd, cychwyn trwy holi am ei flaenoriaeth leol a rhaglenni gwaith.
**Myfyrio** dros brosiectau cydweithredol: Rhannu enghreifftiau o brosiectau lleol. Trafod pwy sy'n cyfrannu a phwy sy'n elwa neu'n dylanwadu.
**Iaith ar y cyd:** Adnabod geiriau ac ymadroddion allweddol sy'n cael eu defnyddio gan gynrychiolwyr cyngor, cymunedau a sefydliadau partner er mwyn siarad am beth sy'n bwysig iddynt.

Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

**Ynglŷn a'r ymchwil**

Mae Dr Elizabeth Woodcock yn Ymchwilydd Cysylltiol Anrhydeddus ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei hymchwil yn cyfrannu at strategaeth ymgysylltiad dinesig y Brifysgol. Mae briff polisi hwn yn seiliedig ar brosiect ymchwil weithredol estynedig rhwng 2016 a 2022 a oedd yn cyfrannu at ei doethuriaeth. Mae'r ymchwil lawn a phapurau polisi eraill ar gael ar dudalen proffil Elizabeth:

Dr Elizabeth Woodcock | | Prifysgol Bangor

**Cyfeiriadau yn y ddogfen hon:**


1. Woodcock, E. M. Cross-sector collaboration for Wales' national well-being: Transformative action in communities of practice. (Bangor, 2022).
2. Llywodraeth Cymru. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru ) 2021 : Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. (2021).
3. Llywodraeth Cymru. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 : yr hanfodion. (2021).